S4C

13.02.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

---

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

---

# Yr amseroedd gorau - a'r amseroedd gwaethaf - o ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru

Mae 'na ysgol arbennig yng Nghaernarfon, ysgol ble mae trafod emosiynau yr un mor bwysig ag adrodd tablau. Nid cyraeddiadau a chanlyniadau yw'r peth pwysicaf i Ysgol Gynradd Maesincla, ond y pethau bychain bob dydd sydd am gael y gorau posib allan o holl blant yr ysgol.

Am flwyddyn gyfan, mae'r camerâu wedi gweld bywyd go iawn yr ysgol – bob tantrum, bob llwyddiant, bob deigryn a'r holl chwerthin ar hyd y daith. Bydd y cyfan i'w weld yn y gyfres chwe-rhan, **Ysgol Ni: Maesincla**, fydd yn dechrau ar S4C nos Fercher, 26 Chwefror am 9.00.

Yma, mae ffordd unigryw o gefnogi plant sydd â phroblemau cymdeithasol ac emosiynol. Dyma'r ysgol gyntaf yng Nghymru i dderbyn achrediad 'Ysgol sy'n Annog' fel rhan o raglen genedlaethol sy'n ceisio helpu disgyblion i rannu eu teimladau a chyfathrebu - agwedd sy'n hollbwysig i lwyddiant yr ysgol, yn ôl y Brifathrawes, Manon Gwynedd.

Meddai: "Os nad ydi plentyn yn cyrraedd yr ysgol mewn lle da yn feddyliol, fedrith nhw ddim eistedd lawr a chanolbwyntio na gwneud unrhyw fath o waith yn effeithiol. Dyna pam, ar ddechrau bob diwrnod, mae'r holl blant yn rhannu sut mae'n nhw'n teimlo. Hapus, trist, blin, rhwystredig, cyffrous... mae rhannu hyn yn help i'r athrawon roi'r gefnogaeth orau posib i'r plant bob dydd."

Mae un o bob tri phlentyn yn Ysgol Maesincla ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Nôl yn 2017, dechreuodd yr ysgol ar y daith o ddatblygu'r ysgol yn 'Ysgol sy'n Annog', gan ymgymryd â'r Rhaglen Genedlaethol Ysgolion sy'n Annog (*National Nurturing Schools Programme*) gan Nurture UK.

Ychwanegodd Manon: "Ers dod â'r dulliau dysgu hyn i mewn i'r ysgol, mae cynnydd mawr wedi bod yma. Mae'r presenoldeb wedi codi, mae 'na lai o waharddiadau parhaol a dros dro ymysg y disgyblion, ac mae 'na gynnydd sylweddol yn nata targedau personol y plant. Ond ar ben bob dim, mae'r plant yn hapus eu byd. Yndi, mae'n cymryd amser a gwaith caled ond un o egwyddorion 'Ysgol sy'n Annog' ydi dyfalbarhau a dysgu cam wrth gam.

"Dwi'n tynnu tuag at 30 o flynyddoedd yn Ysgol Maesincla erbyn hyn, a dwi'n dysgu plant y plant oedd yma pan ddechreuais i! Dwi'n mwynhau pob munud o fod yma. Os allwn ni wneud gwahaniaeth ym mywyd un plentyn bach mewn diwrnod, mae hynny'n sbesial, ond os allwn ni wneud hynny i fwy nag un, wel dyna'r 'wow factor'."

Dewch i adnabod holl gymeriadau'r ysgol unigryw hon yn y gyfres newydd arbennig, **Ysgol Ni: Maesincla**, bob nos Fercher ar S4C.

**Ysgol Ni: Maesincla**
**Nos Fercher, 26 Chwefror 9.00 S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar gael**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Darlun ar gyfer S4C**

13.02.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** **Press Article**

# The best times - and worst times - of a North Wales primary school

There's a school like no other in Caernarfon, where discussing emotions is as important as learning tables. Results and targets aren't the most important thing in Ysgol Maesincla, but the small, everyday things that will bring the best out of all the children.

For a whole year, cameras have seen the everyday real life of the school - every tantrum, every success, every tear and all the laughter along the way. All will be featured in the six-part series, **Ysgol Ni: Maesincla**, which will start on S4C on Wednesday, 26 February at 9.00.

Here, there is a unique way of supporting children with social and emotional problems. This is the first school in Wales to receive the 'Nurture School' accreditation as part of a national program that aims to help pupils share their feelings and communicate - an aspect that, according to Headteacher Manon Gwynedd, is crucial to the school's success.

She said: "If a child arrives at school and they're not in a good mental state, they aren't able to sit down and concentrate or do any sort of work effectively. That's why, at the beginning of each day, all the children share their feelings. Happy, sad, angry, frustrated, excited... sharing this helps teachers give the best possible support to the children every day."

One in three children at Ysgol Maesincla are on the additional learning needs register, which is higher than the national average.

Back in 2017, the school embarked on the journey of developing the school into a 'Nurture School', undertaking the National Nurturing Schools Program which is run by Nurture UK.

Manon added: "Since bringing these teaching methods into the school, there have been positive changes. Attendance has risen, there are fewer suspensions and expulsions among the pupils, and there is a significant increase in the success of children's personal targets. But above all, the children are happy. Yes, it takes time and a lot of hard work, but one of the principles of a Nurture School is to persevere and to learn step by step.

"I'm approaching 30 years at Ysgol Maesincla, and by now I'm teaching the children of the children who were here when I first started! I enjoy every minute of being here. If in one day we can make a difference in one child's life, that's special, but if we can do that for more than one, well that's the 'wow factor'."

Come and meet the characters of Ysgol Maesincla in this special new series every Wednesday on S4C.

**Ysgol Ni: Maesincla**
**Wednesday, 26 February 9.00 S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**A Darlun production for S4C**